# Polisi Crynodeb o Benderfyniadau'r Bwrdd Parôl

**Hydref 2019**

**Darparu Crynodeb o Benderfyniadau'r Bwrdd Parôl**

the Parole Board
working with others to protect the public

Mae Rheolau'r Bwrdd Parôl yn caniatáu darparu dogfen - sef crynodeb - i bartïon â budd. Mae'r crynodeb yn esbonio'n gryno sut mae panel wedi gwneud ei benderfyniad i ryddau carcharor, neu i beidio â rhyddhau carcharor.

Bydd crynodeb yn cael ei lunio ar gyfer pob achos pan fydd cais y gellir gweithredu arno wedi cael ei gyflwyno cyn i banel wneud dyfarniad, wrth iddo wneud y dyfarniad neu ar ôl hynny. Bydd crynodeb yn rhoi manylion y rhesymau dros benderfyniad y Bwrdd Parôl, sy'n seiliedig ar ffeithiau'r achos penodol. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am y gwrandawiad, y ffactorau risg a ystyriwyd a chynnydd y carcharor yn y carchar.

Mae'n bosib y bydd unrhyw grynodeb a ddarperir yn cyfeirio at y carcharor yn ôl ei enw ar ddyddiad y drosedd wreiddiol, neu'r enw a ddefnyddir i gyfeirio at y troseddwr yn gyhoeddus. Bydd y Bwrdd yn defnyddio ei ddisgresiwn i warchod unrhyw fanylion adnabod newydd y bydd y troseddwr yn eu defnyddio fel rhan o'i broses adsefydlu a rhyddhau.

**Pan fydd crynodeb yn cael ei ddarparu**

Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd i greu proses fwy agored a thryloyw, bydd y Bwrdd yn gweithio yn unol â'r dybiaeth y bydd crynodebau ar gael ar gais. Ond mae gan y Bwrdd y disgresiwn i wrthod darparu crynodeb, neu i olygu manylion crynodeb o benderfyniad y panel neu eu diwygio yn ôl yr angen os byddai'r wybodaeth yn gallu, neu os yw'r wybodaeth yn:

- Cael effaith niweidiol ar broses adsefydlu unrhyw droseddwr, neu ar gynnydd unrhyw droseddwr o ran y broses adsefydlu;
- Rhoi unrhyw berson mewn perygl, drwy fygythiadau neu ymddygiad niweidiol arall;
- Ymwneud â throseddwr ifanc - o dan 18 oed;
- Ymwneud ag unrhyw droseddwr sy'n cael ei ryddhau o Uned Iechyd Meddwl ddiogel;
- Torri unrhyw orchmynion llys sydd heb eu cwblhau;
- Ymwneud ag unrhyw ymchwiliadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd;
- Bygwth diogelwch gwladol;

Bydd y Bwrdd yn rhoi gwybod i'r sawl sydd wedi gwneud y cais os ystyrir nad oes modd datgelu unrhyw grynodeb.

Yn yr holl grynodebau a fydd yn cael eu darparu, ni fydd y Bwrdd yn datgelu gwybodaeth sy'n torri hawliau unrhyw berson fel y nodir yn Erthygl 8 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop (ECHR), y Ddeddf Diogelu Data (DPA) a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

I helpu'r Bwrdd Parôl i benderfynu a oes unrhyw rai o'r meini prawf uchod yn berthnasol, dylai'r troseddwr, cynrychiolydd y troseddwr, neu unrhyw barti â budd gyflwyno sylwadau pan wneir y penderfyniad i ganiatáu neu wrthod rhyddhau'r troseddwr o'r carchar.

Ni fydd y Bwrdd yn gofyn am sylwadau gan droseddwyr. Ond, os bydd unrhyw droseddwr yn credu y gallai gwybodaeth nad yw'r Bwrdd yn ymwybodol ohoni effeithio ar y broses ddatgelu yn unol â'r meini prawf uchod, caiff y troseddwr gyflwyno sylwadau i'r Bwrdd.

**Darparu'r crynodeb**

Gall unrhyw ddioddefwr sydd wedi cofrestru â'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr (VCS) wneud cais drwy ei Swyddog Cyswllt Dioddefwr (VLO) am grynodeb o benderfyniad sydd ar y gweill, ar yr amod bod Adolygiad Parôl ar waith pan wneir y cais. Pan fydd dioddefwr yn gwneud cais am grynodeb o benderfyniad, bydd y Bwrdd Parôl yn darparu'r crynodeb drwy'r Swyddog Cyswllt Dioddefwr.

Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd wneud cais am grynodeb drwy ddarparu cymaint o wybodaeth bersonol â phosib am y troseddwr, yn ogystal â'i enw a'i fanylion cyswllt ei hun a'r rheswm dros wneud y cais.

Bydd y crynodeb yn cael ei anfon at y sawl sydd wedi gwneud y cais, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost neu'r cyfeiriad post a ddarparwyd wrth wneud y cais. I gael unrhyw grynodeb, dylid cyflwyno cais i naill ai summaries@paroleboard.gov.uk neu drwy ddefnyddio ein cyfeiriad post.

Bydd y Bwrdd Parôl yn ystyried ceisiadau gan bartïon â budd am hyd at chwe mis ar ôl i unrhyw benderfyniad gael ei wneud. Bydd crynodeb yn cael ei ddarparu cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Bydd y Bwrdd yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd.